Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rôl awdurdodau lleol o ran cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty

## Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (Medi 2025)

28 Hydref 2025

Ym mis Medi 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei adroddiad ynghylch ei ymchwiliad i rôl awdurdodau lleol o ran cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae'r adroddiad yn nodi 18 o argymhellion a 7 casgliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a'r casgliadau hynny.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 3**

**2. Ymateb i'r Argymhellion ... 4**

Argymhelliad 1 ... 4
Argymhelliad 2 ... 5
Argymhelliad 3 ... 6
Argymhelliad 4 ... 6
Argymhelliad 5 ... 8
Argymhelliad 6 ... 9
Argymhelliad 7 ... 10
Argymhelliad 8 ... 11
Argymhelliad 9 ... 13
Argymhelliad 10 ... 13
Argymhelliad 11 ... 14
Argymhelliad 12 ... 15
Argymhelliad 13 ... 16
Argymhelliad 14 ... 17
Argymhelliad 15 ... 18
Argymhelliad 16 ... 18
Argymhelliad 17 ... 19
Argymhelliad 18 ... 20

**3. Ymateb i'r Casgliadau ... 22**

Casgliad 1 ... 22
Casgliad 2 ... 22
Casgliad 3 ... 22
Casgliad 4 ... 23
Casgliad 5 ... 24
Casgliad 6 ... 24
Casgliad 7 ... 25

# 1. Cyflwyniad

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am eu hadroddiad ynghylch rôl awdurdodau lleol o ran cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion a chasgliadau unigol yr Adroddiad isod.

# 2. Ymateb i'r Argymhellion

## Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod D2RA yn cael ei weithredu'n llawn. Dylai hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd o ganlyniad i'w hadolygiad o weithrediad canllawiau rhyddhau cleifion o'r ysbyty, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant ychwanegol ar lefel ysbytai i ymgorffori D2RA (fel y crybwyllwyd mewn tystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

Ymateb: Derbyn

Mae'r holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru wedi rhoi gweithdrefnau Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) ar waith mewn wardiau cyffredinol oedolion ac maent yn adrodd yn fisol ar 4 mesur. Er bod hon yn set ddata newydd, rydym eisoes wedi cymryd camau i wella prosesau adrodd o ran arferion D2RA i sicrhau bod gennym y manylion angenrheidiol i hyrwyddo gwelliannau ac ymgorffori prosesau D2RA yn y meysydd hynny lle nad ydynt wedi'u sefydlu'n llawn.

Mae gweithdai sy'n canolbwyntio ar *Gyflawni'r Canlyniadau a'r Profiad Gorau Posibl i Bobl yn yr Ysbyty*, a fydd yn cynnwys D2RA, wedi'u cynllunio ar gyfer chwarter 4 2025/26.  Bydd y sesiynau ymgysylltu hyn hefyd wedi'u hanelu at bob un o'r meysydd arbenigol sef Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn (a fydd yn cwmpasu'r rhai â dementia).

O ran wardiau cyffredinol oedolion, mae Rhaglen Chwe Nod Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi ariannu swyddi hyfforddi ar gyfer Byrddau Iechyd ledled Cymru i ymgorffori *Cyflawni'r Canlyniadau a'r Profiad Gorau Posibl i Bobl yn yr Ysbyty*, gan gynnwys D2RA. Mae'r swyddi hyn yn targedu staff wardiau â hyfforddiant. Er mwyn sicrhau bod staff rheng flaen yn elwa ar yr hyfforddiant hwn, darparodd cyllideb y rhaglen chwe nod genedlaethol gyllid ym mis Mai 2025 i sefydlu dwy swydd hyrwyddwr hyfforddi y Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Cylch gwaith yr hyrwyddwyr hyfforddiant yw darparu hyfforddiant sy'n seiliedig ar wardiau i bob disgyblaeth staff, gan hyrwyddo gweithdrefnau ar gyfer cymhwyso egwyddorion y Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai yn ymarferol, gan gynnwys SAFER, Coch i Wyrdd (R2G) a D2RA o fewn rowndiau bwrdd.  Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i gynllunio i ymgorffori'r fframwaith yn llawn i ymarfer dyddiol. Mae modiwl e-ddysgu animeiddiedig byr D2RA wedi'i ddatblygu ac mae ar gael ar system Cofnod Staff Electronig y GIG. I hyrwyddo

datblygiad proffesiynol staff ymhellach, rydym hefyd wedi partneru ag Agored Cymru i ddatblygu unedau achrededig yn ymwneud â'r Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai. Bydd hyn yn rhoi cyfle i staff gael cydnabyddiaeth ffurfiol am eu dysgu ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymgorffori egwyddorion llif cleifion mewn gofal rheolaidd.

Mae modiwlau a fideos hyfforddi hefyd ar gael i staff gofal cymdeithasol ar blatfform a rennir.

Mae canllawiau ysgrifenedig ar gael yn:
https://perfformiadagwella.gig.cymru/swyddogaethau/y-chwe-nod/nod-6/

Yn ystod chwarter 3 2025/26, mae Arweinydd Clinigol a thîm y rhaglen Chwe Nod yn cynnal tair gweminar dros ginio i glinigwyr ledled Cymru ar gyflawni'r canlyniadau'r gorau posibl o ran ysbytai, gan gynnwys D2RA. Roedd dros 100 o unigolion yn bresennol yn y sesiwn gyntaf ac mae recordiadau ar gael wedi'r digwyddiadau hyn. Yn ogystal, dros y tri mis nesaf, bydd arweinydd y rhaglen Chwe Nod yn cynnal ymweliadau adolygu a chymorth ar safleoedd ysbytai i adolygu'r gwaith o weithredu D2RA mewn ymarfer sy'n seiliedig ar wardiau ar draws yr holl Fyrddau Iechyd.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru nodi arferion gorau ar gyfer gwella trefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty a dylai ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol fabwysiadu'r arferion hynny neu gyfiawnhau pam na ellir gwneud hynny.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gwella'r gweithdrefnau o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn flaenoriaeth hollbwysig ac yn cydnabod gwerth nodi a rhannu arferion gorau. Yn ystod yr haf, cynhaliodd Perfformiad a Gwella GIG Cymru archwiliad cenedlaethol o strwythurau ac arferion adrodd am ryddhau cleifion o ysbytai. Amlygodd yr adroddiad hwn feysydd gwella ar lefel rhanbarthol ac enghreifftiau o arferion gorau a welwyd ar waith ledled Cymru.

Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u rhannu â thimau rhanbarthol, y gofynnwyd iddynt ddatblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd. Ar 8 Medi, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru

ddigwyddiad ar y cyd gyda chynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol o bob rhanbarth i arddangos mentrau yn ymwneud ag arferion gorau. Gofynnwyd i ranbarthau amlinellu sut y byddant yn mabwysiadu ac yn ehangu'r dulliau gweithredu hyn yn lleol.

Er mwyn sicrhau atebolrwydd, mae rhanbarthau'n ymgorffori'r cynigion hyn yn eu cynlluniau gweithredu blynyddol, a fydd yn cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd a gynhelir ym mis Hydref gyda Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro yn rheolaidd drwy gyfarfodydd rhanbarthol misol, lle y bydd data, arferion da a chymorth yn cael eu rhannu.

Pan fo arferion gorau yn cyd-fynd â Chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar Ryddhau Cleifion o'r Ysbyty, rydym hefyd yn cryfhau'r canllawiau i'w gwneud yn fwy clir bod disgwyl i ranbarthau fabwysiadu'r arferion hyn. Pan nad yw mabwysiadu arferion yn bosibl, bydd disgwyl i ranbarthau ddarparu rhesymau clir dros hynny.

Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod arferion gorau, nid yn unig yn cael eu nodi a'u rhannu, ond hefyd yn cael eu hymgorffori'n weithredol ledled Cymru, gan gynnwys hyblygrwydd priodol i adlewyrchu cyd-destunau lleol.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data ar hyd yr achosion o oedi ar gyfer Llwybrau Gofal ar unwaith.

Ymateb: Derbyn

Ers mis Awst 2025, caiff data Cyfanswm y Diwrnodau o Oedi ei gyhoeddi yn fisol ar wefan StatsCymru ochr yn ochr â data Oedi yn Achos Llwybrau Gofal. Mae'r gyfres o ddata hanesyddol hefyd wedi'i chynnwys hyd at y pwynt lle y mae data ar gael drwy adroddiadau Oedi yn Achos Llwybrau Gofal.

Goblygiadau ariannol – Dim.

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu unrhyw bolisïau ar y cyd presennol ar gyfer rhyddhau cleifion a nodi ei model dewisol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Yna, dylai ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol fabwysiadu'r dull hwn neu gyfiawnhau pam na ellir gwneud hynny.

Ymateb: Derbyn

Trwy ganllawiau a mentrau polisi presennol megis yr Her 50 Diwrnod y Gaeaf, Cynllun y Gaeaf 2025/26 a'r rhaglen Chwe Nod, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi disgwyliadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu model cyson ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, gan gynnwys arferion allweddol fel y rhai a ganlyn:

- Ymgorffori y rhaglen Chwe Nod - Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai (yn cynnwys D2RA)
- Cymhwyso gweithio 7 diwrnod yr wythnos fel y gellir rhyddhau cleifion dros y penwythnos
- Defnyddio Offeryn Cefnogi Penderfyniadau (DST) / proses Gofal Iechyd Parhaus (GIP) yn y gymuned
- Adolygiad wythnosol rhanbarthol o gleifion â hyd arhosiad 21-28 o ddiwrnodau a'r 20 claf â'r hyd arhosiad hiraf, gan gynnwys camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar symud ymlaen tuag at eu rhyddhau
- Model Asesydd Dibynadwy ar gyfer pob lleoliad gofal
- D2RA - "Gartref yn Gyntaf" fydd y safon ar gyfer unigolion sy'n ffit yn glinigol – bydd y gwaith cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn dechrau yn syth ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty. Bydd cydweithio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwella effeithlonrwydd y dull gweithredu hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r polisïau hyn i gryfhau cydymffurfiaeth a sicrhau bod gweithdrefnau yn cael eu mabwysiadu'n gyson. Mae hyn yn cynnwys diweddaru'r Canllawiau Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty er mwyn atgyfnerthu y disgwylir i ranbarthau roi'r arferion hyn ar waith neu ddarparu cyfiawnhad clir os nad ydynt yn gwneud hynny.

Wrth ymateb i argymhellion diweddar Grŵp Cynghori'r Gweinidog, mae archwiliad o weithrediad y model Asesydd Dibynadwy wedi'i gwblhau a'i rannu â phartneriaid rhanbarthol. Disgwylir i ranbarthau weithredu ar y canfyddiadau a dangos cynnydd o fewn chwe mis, neu gyfiawnhau trefniadau amgen sy'n cyflawni budd cyfartal neu fwy o fudd.

Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod model y cytunwyd arno yn genedlaethol ar waith, sy'n cynnwys disgwyliadau clir o ran mabwysiadu ac atebolrwydd sydd wedi'u hymgorffori i brosesau adolygu a monitro parhaus.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru werthuso rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran annog gweithio mewn partneriaeth ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, a defnyddio'r gwerthusiad hwnnw i ysgogi cynnydd a gwella effeithiolrwydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn ac yn cydnabod rôl gynyddol gymhleth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) o ran annog integreiddio'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i drefniadau gwerthuso adlewyrchu'r cymhlethdod hwn ac adeiladu ar weithgarwch presennol.

O dan ganllawiau a'r ddeddfwriaeth Rhan 9 diwygiedig, mae'n ofynnol i BPRhau gynnal hunanasesiad dwywaith y flwyddyn a datblygu camau gweithredu gwella cysylltiedig. Caiff y rhain eu cyhoeddi yn adroddiadau blynyddol y BPRhau ac maent yn canolbwyntio ar feysydd allweddol fel arweinyddiaeth, llywodraethiant, gwerthoedd, ac ymddiriedaeth. Mae'r broses hon yn galluogi byrddau i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, gan gefnogi gwelliant parhaus o ran effeithiolrwydd.

Er mwyn annog cysondeb a thryloywder, caiff offeryn asesu ac arolwg a ddatblygwyd yn genedlaethol eu defnyddio gan BPRhau, yn ddelfrydol gydag adnodd hwyluso annibynnol. Mae hyn yn caniatáu i BPRhau asesu'n hyderus yr hyn sy'n gweithio'n dda a lle y mae angen gwella. Bydd yr wybodaeth a geir yn llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol ac yn cael ei rhannu'n agored drwy adroddiadau blynyddol BPRhau.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adroddiadau a'r hunanasesiadau hyn i feincnodi BPRhau yn erbyn dyletswyddau statudol ac effeithiolrwydd cyffredinol. Caiff y cynlluniau gweithredu sy'n deillio o'r hunanasesiadau eu trafod ag arweinwyr BPRhau mewn cyfarfodydd chwarterol, gan arwain at grynodeb blynyddol. Wedyn, caiff y crynodeb hwn ei ystyried yn ystod cyfarfodydd atebolrwydd rhanbarthol rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r personau cyfrifol penodol ar gyfer integreiddio o fewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol (fel y nodir yn y canllawiau Rhan 9 a ddiwygiwyd yn ddiweddar).

Mae angen rhagor o waith i ystyried sut y gallai arolygiadau thematig a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd ddarparu tystiolaeth werthusol.

Yn ogystal, mae'r gwerthusiad parhaus o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn darparu gwybodaeth werthfawr i effeithiolrwydd buddsoddiadau mewn modelau integredig gofal cymunedol sydd wedi'u datblygu gan BPRhau. Bydd yr adroddiad sydd ar ddod gan Archwilio Cymru ynghylch y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a ddisgwylir yn hydref 2025, yn cyfrannu ymhellach at y sylfaen dystiolaeth, gan asesu effaith y gronfa ac effeithiolrwydd BPRhau o ran goruchwylio sut y caiff ei rhoi ar waith.

Gyda'i gilydd, mae'r gweithdrefnau hyn yn darparu darlun cytbwys o effaith BPRhau ac yn ategu'r gwaith o nodi camau gwella ystyrlon.

Trwy'r cydymdrechion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod BPRhau mewn sefyllfa gadarnhaol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a hyrwyddo integreiddio ystyrlon ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru hybu'r agenda trawsnewid digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gydag arweinyddiaeth gryfach a mwy o atebolrwydd.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu strwythur Llywodraethiant Digidol, Data a Thechnoleg newydd i ysgogi'r gwaith o gyflawni trawsnewid digidol. Mae'r strwythur yn cynnwys bwrdd arweinyddiaeth (sy'n cynnwys Prif Swyddogion Gweithredol yr ymddiriedolaethau/byrddau iechyd yn ogystal ag arweinwyr clinigol a thechnegol o Lywodraeth Cymru), bwrdd cyflawni ac ystod eang o grwpiau cynghori. Disgwylir y bydd yr holl fyrddau a'r grwpiau ar waith erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i weithredu'r Fframwaith Digidol mewn Gofal Cymdeithasol sy'n nodi dull gweithredu wedi'i gydgysylltu'n genedlaethol ar gyfer trawsnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy arloesi digidol, safonau data gwell, a systemau integredig.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ac egluro'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y rhaglen Cysylltu Gofal, gan gynnwys a yw ar y trywydd iawn i ddod yn weithredol ym mis Ionawr 2026. Ar wahân i'r rhaglen Cysylltu Gofal, dylai Llywodraeth Cymru nodi arferion gorau o ran defnyddio technoleg ddigidol, fel atgyfeiriadau electronig, i hwyluso cyfathrebu a threfniadau rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn ystod y broses ryddhau a'i gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd, ysbytai ac awdurdodau lleol fabwysiadu'r model a ddewisir neu gyfiawnhau pam na ellir gwneud hynny.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Rhaglen Cysylltu Gofal yn parhau yng ngham cyntaf ei chyflwyno er mwyn helpu'r holl fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol yng Nghymru i symud tuag at systemau digidol rhyngweithiol.  Bydd y systemau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer rhannu gwybodaeth ac yn galluogi cyflawni uchelgais cam dau sef sefydlu Cofnod Gofal Integredig ar gyfer pobl Cymru.

Caiff y gweithgarwch caffael i drosglwyddo o'r platfform presennol sef CareDirector (y disgwylir iddo ddod i ben ym mis Ionawr 2026) ei arwain ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.  Mae prosesau caffael wedi'u cwblhau ar gyfer pob Awdurdod Lleol sy'n symud i'r systemau newydd ac mae'r holl gontractau o ran cyflawni'r system bellach ar waith.  Mae gwaith caffael parhaus yn mynd rhagddo, a bydd yn parhau i fynd rhagddo ar gyfer rhannau eraill o'r achos busnes, er enghraifft mapio prosesau, gwaith data ac ati.

Er mwyn cryfhau'r gwaith goruchwylio a sicrhau bod alinio strategol ar draws sectorau, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu fframwaith llywodraethiant Digidol, Data a Thechnoleg aml-haen. Mae hyn yn cynnwys y Grŵp Noddi Cysylltu Gofal, sy'n darparu sicrwydd strategol ar draws sectorau a sicrhau bod dwy elfen gyflawni'r rhaglen yn gydnaws â'i gilydd sef gofal cymunedol (o dan

arweiniad Iechyd a Gofal Digidol Cymru) a gofal cymdeithasol (o dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Mae'r grŵp yn adrodd wrth y Bwrdd Cyflawni Digidol, Data a Thechnoleg ac yn sicrhau bod penderfyniadau rhaglenni yn gyson â blaenoriaethau iechyd a gofal digidol cenedlaethol, gan gynnwys seilwaith Unwaith i Gymru.

Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo mabwysiadu safonau a manylebau digidol cenedlaethol i ategu prosesau dylunio a gwneud penderfyniadau lleol. Er bod gorfodi offer digidol penodol (fel atgyfeiriadau electronig neu systemau cynllunio rhyddhau) yn parhau i fod yn gymhleth, mae enghreifftiau o arferion gorau, fel bwrdd gwyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, wedi'u rhannu â phartneriaid cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i annog prosesau ar gyfer mabwysiadu'r offer hyn lle bo hynny'n briodol, gan hefyd gydnabod pwysigrwydd hyblygrwydd lleol a'r angen i osgoi rhoi pwysau heb ei ariannu ar bartneriaid.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu metrigau perfformiad i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd mesurau ataliol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn ac mae'n ymroi yn rhagweithiol â'r gwaith o ddatblygu metrigau perfformiad cadarn a data ansoddol drwy drefniadau llywodraethiant y System Gofal Cymunedol Integredig. Mae'r fframwaith hwn yn cyflwyno dull gweithredu cynhwysfawr o ran canlyniadau a mesurau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Canlyniadau ar lefel y system: er enghraifft lleihau nifer y derbyniadau diangen i'r ysbyty a sicrhau gwell gofal ar draws sefydliadau.
- Canlyniadau sefydliadol: gan gynnwys gwell cydweithio rhwng gweithluoedd a llai o ddyblygu gwasanaethau.
- Canlyniadau unigol: sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth a llesiant yn y cartref.

Trwy waith y Pwyllgor Gweithredu Gofal a'r Her 50 diwrnod, rydym wedi datblygu dangosfyrddau data iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd sy'n defnyddio data a dangosyddion perfformiad allweddol meintiadwy o bob rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol i olrhain cynnydd a dangos effaith ar draws lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn cynnwys mesur:

- Rhagor o gyfleoedd i fanteisio ar ymyriadau cymunedol.
- Gostyngiadau yn nifer yr achosion o gludo i'r ysbyty y gellid eu hosgoi, hynny yw, fframweithiau atal cwympiadau ac ymateb iddynt
- Llai o dderbyniadau brys i'r ysbyty a chwtogi hyd arosiadau mewn ysbytai.

Mae dysgu o wasanaethau a phrosiectau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu metrigau i'n helpu ni i ddeall a mesur effeithiau gwasanaethau ataliol. Mae Fframwaith Canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a llawlyfrau technegol yn darparu dull strwythuredig ar gyfer nodi dangosyddion meintiol ac ansoddol, sydd wedi'u halinio â'r fethodoleg Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Mae hyn yn galluogi gwasanaethau i ateb cwestiynau allweddol, er enghraifft: "Faint wnaethon ni ei gyflawni?", "Pa mor dda wnaethon ni hynny?", ac "A oes rhywun wedi elwa ar ein hymdrechion o ganlyniad?"

Mae'r data ansoddol a gesglir drwy brosiectau a ariennir gan y Gronfa, megis astudiaethau achos, adborth defnyddwyr gwasanaeth a safbwyntiau gan ymarferwyr yn amhrisiadwy o ran deall manteision yn y byd go iawn sy'n gysylltiedig â dulliau ataliol. Mae'r naratifau hyn yn helpu i ddangos sut y mae ymyriadau cynnar yn gwella llesiant, yn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau acíwt, ac yn helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau.

Mae'r gwerthusiad cenedlaethol o'r Gronfa, o dan arweiniad Prifysgol De Cymru, hefyd yn ein helpu i fesur effeithiau buddsoddiad ataliol drwy'r Gronfa.

Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ymwneud â datblygu a goruchwylio'r metrigau hyn i sicrhau trawsnewid cynaliadwy a gwerthuso gofal ataliol yn ystyrlon.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i bob lleoliad gofal canolraddol gynnwys mewnbwn therapiwtig a mewnbwn nyrsio lle bo'n fuddiol i adferiad y person.

Ymateb: Derbyn

Mae darpariaethau iechyd, gan gynnwys ymyriadau gofal canolraddol (sy'n cynnwys therapïau a nyrsio) 'am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen' a dylai fod ar gael ni waeth ble mae unigolyn yn byw, gan gynnwys lleoliadau dros dro neu leoliadau parhaol.

Mae tîm Chwe Nod Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi datblygu canllawiau i gydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob lleoliad cam-i-lawr o leoliad ysbyty:

https://perfformiadagwella.gig.cymru/swyddogaethau/y-chwe-nod/nod-6/

Rydym wedi buddsoddi mewn model nyrsio ardal yn y gymdogaeth sy'n nodi y dylai darpariaeth nyrsio fod yn seiliedig ar gymdogaeth, nid y math o lety rydych chi'n byw ynddo. Byddwn felly yn defnyddio'r model hwn fel adnodd i ysgogi/galluogi er mwyn sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei gyflawni.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cyflym o'r arferion gofal canolraddol presennol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ei ganfyddiadau, y camau gweithredu a nodwyd i gyflawni gwelliannau, a'r camau nesaf.

Ymateb: Derbyn

Yng Nghymru, nid yw gofal canolraddol yn gysyniad ar ei ben ei hun ond mae wedi'i ymgorffori mewn modelau ehangach fel Gofal Cymunedol Uwch ac Ailalluogi. Caiff y rhain eu hystyried yn ddarpariaethau cam-i-fyny sy'n ceisio atal derbyniadau i'r ysbyty ac annog adfer gartref. Mae pedair conglfaen gydnabyddedig gofal canolraddol, sy'n gydnaws â chanllawiau NICE a chanllawiau Archwilio Cenedlaethol, yn cynnwys:

- Ailalluogi yn y cartref
- Ailalluogi yn y gwely

- Rhaglenni a arweinir gan therapïau
- Ymateb i Argyfwng (ymyrraeth 2 awr)

Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu gan dimau amlbroffesiynol, gan gynnwys therapyddion, nyrsys a gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae gofal canolraddol wedi bod yn flaenoriaeth gyson:

- Rhoddwyd Cyllid Gofal Canolraddol ar waith yn gyntaf yn 2014 ac esblygodd i'r Gronfa Integredig Ranbarthol, sydd, o ran oedolion ag anghenion cymhleth, gan gynnwys pobl hŷn sy'n byw gydag eiddilwch, yn gorfodi buddsoddi mewn modelau integredig, gan gynnwys gofal canolraddol.
- Yn 2024, gwnaeth cyllid y Gronfa Integredig Rhanbarthol gwerth £90m, cyllid Ymhellach, yn Gyflymach gwerth £12m, a chyllid Proffesiynau Perthynol i Ofal Iechyd gwerth £5m gefnogi Gofal Cymunedol Uwch ac ehangu Ailalluogi. Gwelwyd y mwyafrif o ranbarthau yn gwneud cynnydd yn erbyn targed y Gweinidog o gynnydd o 20% mewn atgyfeiriadau.
- Mae buddsoddiad gwerth £30m ar gyfer Awdurdodau Lleol yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd i gryfhau gwasanaethau cymunedol, gydag ailalluogi yn un o'r nodweddion allweddol.

Mae fframweithiau arferion gorau wedi'u datblygu ar gyfer y canlynol:

- Gofal Cymunedol Uwch
- Nyrsio Cymunedol
- Adsefydlu
- Ailalluogi (wrthi'n cael ei ddatblygu)

Rhannwyd y fframweithiau hyn â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy Becyn Cymorth y Gaeaf, gan nodi disgwyliad o ran hunanasesu. Mae gweithdrefnau monitro a sicrwydd ar waith ar gyfer gaeaf 2025, gan gynnig cyfle amserol i feincnodi.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod timau rhyddhau o'r ysbyty yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol drwy gryfhau'r canllawiau i wneud hynny'n ofynnol.

Ymateb: Derbyn

Yn unol ag arferion D2RA, mae canllawiau Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty Cymru Gyfan yn hyrwyddo'r defnydd o Aseswyr Dibynadwy a chynnal asesiad cymesur ar ran gofal cymdeithasol ar gyfer pob achos, ar wahân i'r rhai mwyaf cymhleth, a hynny er mwyn ategu'r model rhyddhau i adfer yna asesu.

Ar gyfer y lleiafrif hynny o achosion cymhleth, mae canllawiau Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty Cymru Gyfan eisoes yn cynnwys cyfeiriad at gynnwys gofal cymdeithasol yn rhan o'r Tîm Amlddisgyblaethol.  Bydd geiriad y canllawiau yn cael ei adolygu i sicrhau eu bod yn gliriach, yn gryfach ac y cânt eu dilyn gan ranbarthau i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r canllawiau ar ryddhau cleifion o'r ysbyty er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys tai fel asiantaeth bartner a enwir, a bod cyflwr tai'r unigolyn yn cael ei ystyried yn llawn, ac y cynllunnir yn llawn ar ei gyfer, yn ystod y broses ryddhau.

Ymateb: Derbyn

Mae canllawiau Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty eisoes yn cynnwys cyfeiriad at gynnwys adran tai awdurdodau lleol yn rhan o'r Tîm Amlddisgyblaethol.  Bydd geiriad y canllawiau yn cael ei adolygu i sicrhau eu bod yn gliriach, yn gryfach ac y cânt eu dilyn gan ranbarthau i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Mae cynrychiolwyr tai yn bartneriaid statudol ar BPRhau i sicrhau y caiff anghenion llety a thai eu hystyried yn rhan o brosesau cynllunio a chomisiynu strategol rhanbarthol.  Caiff buddsoddiad cyfalaf gwerth £60.5m drwy'r Gronfa Tai â Gofal ei sianelu drwy BPRhau i sicrhau bod blaenoriaethau buddsoddi o ran iechyd, gofal cymdeithasol a thai yn gydnaws yn strategol â'i gilydd.

Mae'r Glasbrint a luniwyd ar y cyd ar gyfer System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru yn cynnwys 'atebion ar sail llety' fel un o hwylusydd allweddol y system i sicrhau bod anghenion tai yn parhau i gael eu hystyried yn rhan o'r gwaith o gyflawni gofal integredig.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cydweithio ar faterion yn ymwneud â digartrefedd a rhyddhau cleifion o'r ysbyty i sicrhau bod yr holl ddatblygiadau polisi yn gydnaws â'i gilydd.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector i sefydlu dull strategol o ddarparu gwasanaethau o'r ysbyty i'r cartref. Dylai hyn gynnwys edrych ar sut i wella'r broses gomisiynu, gyda chyllid mwy hirdymor ar gyfer gwasanaethau o'r ysbyty i'r cartref sydd â hanes o lwyddo, a sut y gall leihau rhestrau aros ar gyfer y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a phartneriaid y trydydd sector i ddatblygu dull gweithredu strategol ar gyfer gwasanaethau o'r ysbyty i'r cartref. Caiff hyn ei gefnogi drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sy'n galluogi'r gwaith o gyflawni ar y cyd fodelau ymyrraeth gynnar a chymorth cymunedol. Caiff arferion da eu rhannu drwy gymunedau ymarfer cenedlaethol a byddant yn llywio'r gwaith o ddylunio System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru.

Mae BPRhau yn hwyluso partneriaethau strategol wrth roi'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar waith ac yn hyrwyddo dulliau gweithredu ar gyfer comisiynu ar y cyd, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Rhaglen Byw'n Annibynnol yn cefnogi ystod eang o weithgarwch drwy grantiau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar ddyraniadau, i Asiantaethau Gofal a Thrwsio, Cymdeithasau Tai drwy Grantiau Addasiadau Ffisegol ac Awdurdodau Lleol drwy'r rhaglen Galluogi. Mae hyn yn ychwanegol at y cymorth a ddarperir i awdurdodau lleol i hwyluso rhoi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar waith drwy gyllid cyfalaf heb ei neilltuo drwy'r setliad llywodraeth leol.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cynnal y gwaith o gyflawni tua 45,000 o addasiadau bob blwyddyn ar gost o dros £60m. Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn cyfrif am oddeutu £30m y flwyddyn o gyllid cyfalaf heb ei neilltuo drwy'r setliad llywodraeth leol.

- Ar hyn o bryd, mae gan Gofal a Thrwsio weithwyr achos 'Ysbyty i Gartref Iachach' mewn 17 o ysbytai ledled Cymru, sy'n gwasanaethu pump o'r saith bwrdd iechyd lleol. Mae gweithwyr achos yn gweithio'n uniongyrchol gyda staff ysbytai, cleifion a'u teuluoedd i nodi addasiadau tai angenrheidiol yn agosach at pan gaiff cleifion eu derbyn i'r ysbyty, gan helpu i leihau achosion o oedi a galluogi eu rhyddhau o'r ysbyty yn gyflym ac yn ddiogel.

- Mae'r Rhaglen Addasiadau Brys yn darparu cyllid cyfalaf gwerth £4.5m i Gofal a Thrwsio bob blwyddyn, ar gyfer cyflawni addasiadau yn gyflym i gartrefi unigolion hŷn ac unigolion anabl, cynorthwyo â rhyddhau cleifion o'r ysbyty, a helpu i atal cleifion rhag cael eu haildderbyn i'r ysbyty yn y dyfodol.
- Mae'r rhaglen Galluogi yn darparu cyllid gwerth £8.5m i awdurdodau lleol i gynnal y gwaith o gyflawni addasiadau yn gyflym.
- Mae Grantiau Addasiadau Ffisegol, gwerth £12m, yn galluogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynnal addasiadau addas bach, canolig a mawr eu maint i gartrefi eu tenantiaid gan hefyd leihau'r pwysau ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl awdurdodau lleol.

Gall dull gweithredu o'r ysbyty i'r cartref helpu i leihau amseroedd aros ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl drwy nodi anghenion yn gynt / cyflymu asesiadau, gan flaenoriaethu'n aml addasiadau brys a helpu i symleiddio'r gwaith cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion oherwydd gwell cydweithio a chydgysylltu gwasanaethau. Gall hefyd helpu i leihau'r galw am addasiadau yn gyffredinol drwy leihau hyd arosiadau yn yr ysbyty, atal aildderbyn cleifion i'r ysbyty, yn ogystal â helpu i ryddhau capasiti ar draws gwasanaethau cysylltiedig eraill. Fodd bynnag, nid yw cryfhau'r dull gweithredu heb ei heriau a byddai angen mesurau cysylltiedig i reoli'r galw, diogelu tegwch a chryfhau capasiti ar draws yr holl wasanaethau perthnasol.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i weithio tuag at gydraddoldeb o ran cyflogau a thelerau ac amodau rhwng gweithlu'r GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Dylai ddiweddaru gwaith ymchwil blaenorol i gost gwneud hynny a llunio cynllun cyflawni gyda cherrig milltir ac amserlen.

Ymateb: Derbyn

Ers 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi cadw at ei hymrwymiad i ariannu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae hyn wedi lleihau yn sylweddol y bwlch cydraddoldeb o ran y rolau Band 2 hynny yn y GIG. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen rhagor o welliannau mewn perthynas â chyflogau, yn arbennig wrth gymharu â sectorau eraill fel manwerthu neu letygarwch. Mae gwella cyflogau yn parhau i fod yn flaenoriaeth

i Lywodraeth Cymru a'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, sef grŵp teirochrog sy'n dwyn ynghyd undebau llafur, cyflogwyr ym maes gofal cymdeithasol a'r llywodraeth.

Rydym yn agosáu at gwblhau Fframwaith Tâl a Dilyniant ar gyfer y sector Gofal Cymdeithasol a fydd yn nodi'n glir y cyfleoedd dilyniant ym maes gofal cymdeithasol a'r ystod o rolau a lefelau cyflogau yn y sector. Yn gadarnhaol, yn rhan o Fil Hawliau Cyflogaeth Llywodraeth y DU, cafodd darpariaethau eu cynnwys i ddatblygu Cytundebau Cyflog Teg ar gyfer gofal cymdeithasol drwy ddatblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau y caiff y darpariaethau hyn, y cytunodd y Senedd arnynt ym mis Gorffennaf 2025, eu hestyn i Gymru.

Nid yw cyfraith cyflogaeth wedi'i datganoli ac felly nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau gorfodi mewn perthynas â chyflogau ym maes gofal cymdeithasol. Bydd y gwelliannau i'r Bil Hawliau Cyflogaeth yn newid hyn, am y tro cyntaf, gan alluogi gweithdrefnau gorfodi cytundebau cyflog teg a wneir gan y corff negodi newydd ar gyfer gofal cymdeithasol. Byddwn yn awr yn dechrau ar y gwaith i sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru. Mae cyrff negodi ar wahân i'r llywodraeth yn cydnabod ein cyfrifoldebau datganoledig, fframweithiau comisiynu gwahanol, a threfniadau cyllido. Disgwylir i Gytundebau Cyflog Teg gael eu rhoi ar waith yn ystod 2028.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data ar amseroedd aros ar gyfer asesiadau gofal a gwasanaethau gofal; ac ar y lefelau presennol o swyddi gwag.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at gyhoeddi'r data hwn. Disgwylir ei gyhoeddi yn ystod y gwanwyn yn 2026.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn monitro ac yn adolygu gweithrediad y fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn gweithio gyda chomisiynwyr lleol i ddatblygu offeryn hunanasesu, a fydd yn wirfoddol yn y lle cyntaf, i fesur cydymffurfiaeth â'r Fframwaith Cenedlaethol a'r camau gwella â blaenoriaeth, i'w dreialu yn chwarter 3 2025/26 a'i lansio yn chwarter 4 2025/26.

Mae'r Swyddfa Genedlaethol yn casglu tystiolaeth a ddarperir yn rownd bresennol adroddiadau blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a BPRhau ynghylch sut y mae safonau ac egwyddorion comisiynu'r Fframwaith Cenedlaethol yn cyfrannu at ddiwallu anghenion pobl sy'n cael gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol a gwella canlyniadau llesiant. Bydd dadansoddiad o'r dystiolaeth hon yn llywio cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer monitro, gweithredu a gwerthuso effaith y Fframwaith ar weithgarwch comisiynu a bydd hefyd yn llywio'r adolygiad dwy flynedd o'r Fframwaith.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddatblygu fformiwla genedlaethol ar gyfer dull teg a chyson o osod ffioedd ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth, ar ôl ystyried canfyddiadau'r ymchwil a gomisiynwyd ganddi yn y maes hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar ddatblygu methodoleg genedlaethol yn ymwneud â ffioedd ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal. Mae'r adroddiad terfynol, gan gynnwys canfyddiadau ac argymhellion, wedi dod i law ac rydym yn aros am gadarnhad o'r dyddiad cyhoeddi. Mae'r gwaith hwn yn un o'r camau allweddol yng Ngham 1 y Cynllun Gweithredu Cychwynnol ar gyfer y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Bydd y canfyddiadau yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi yn y dyfodol a disgwylir iddynt gael eu hystyried ymhellach yn rhan o Gam 2 y Cynllun Gweithredu, y bwriedir ei roi ar waith rhwng 2026 a 2028.

Mae'r dull gweithredu graddol hwn yn sicrhau bod unrhyw fodel cenedlaethol ar gyfer gosod ffioedd yn seiliedig ar dystiolaeth, yn deg ac yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ar draws y sector.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 18

Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth inni ynghylch pryd y bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ofalwyr Di-dâl yn cwblhau ei waith, ac yna dylai nodi'r camau y mae'n eu cymryd i wella gweithrediad dyletswyddau statudol awdurdodau lleol o ran gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai'r Llywodraeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hyn.

Ymateb: Derbyn

Gwnaeth Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl gomisiynu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) i gynnal adolygiad cyflym o hawliau gofalwyr, gan gynnwys y cyfleoedd i elwa ar asesiadau o anghenion gofalwyr. Cyhoeddwyd yr adolygiad hwn ym mis Mehefin 2023, a sefydlwyd grŵp tasg a gorffen amlasiantaethol i ysgogi gwelliannau ar lefel genedlaethol.

Cynhaliodd pob awdurdod lleol hunanasesiad ac rydym wedi cynnal sawl cyfarfod gydag uwch arweinwyr i sicrhau eu hymrwymiad a chytuno ar gamau gweithredu penodol. Rydym hefyd wedi ymwneud â gofalwyr di-dâl i ddeall rhagor am eu profiadau o'r broses o ran asesu anghenion gofalwyr.

Mae ADSS Cymru bellach wedi cymryd y cyfrifoldeb arweiniol am weithredu ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu swyddogaeth rheoli prosiect i gynorthwyo'r swyddog arweiniol. Ym mis Medi, cyflwynwyd cynllun gweithredu gerbron y Grŵp Cynghori. Dyma gynllun sy'n amlinellu cyfres gynhwysfawr o gamau gweithredu i'w cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Mae'r camau gweithredu yn cynnwys gwaith i gytuno ar fwy o gysondeb o ran cofnodi, gwybodaeth genedlaethol well sydd ar gael yn gyson i ofalwyr, canllawiau a hyfforddiant i ymarferwyr a disgwyliadau ar gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol i ennyn diddordeb gweithwyr a sicrhau eu hymwneud.

Adroddir am gynnydd o ran y cynllun gweithredu hwn wrth y Grŵp Cynghori ym mis Rhagfyr 2025 a mis Mawrth 2026.

Yn flaenorol, gwnaeth y Grŵp Cynghori gomisiynu gwaith i ddatblygu prosesau adrodd data gwell gan awdurdodau lleol ynghylch gofalwyr di-dâl. Bydd cyfrifiad newydd o dan y pennawd 'Gofalwyr di-dâl sy'n cael cymorth' yn adrodd am ddata yn eu cylch o fis Ebrill 2026 ymlaen. Bydd hwn yn gyfle wedi'i wella i gael

mwy o ddata ar ofalwyr sy'n cael asesiadau o anghenion gofalwyr, yn ychwanegol at y ffurflen data blynyddol bresennol yn ymwneud â nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gynhaliwyd.

Byddwn hefyd yn ymwneud ag Arolygiaeth Gofal Cymru, y bydd ei gweithgarwch o ran arolygu awdurdodau lleol yn rhoi gwybodaeth am ansawdd asesiadau o anghenion gofalwyr. Mae arolwg 'Tracio'r Ddeddf' gan Gofalwyr Cymru yn ffynhonnell werthfawr arall o adborth gan ofalwyr di-dâl ynglŷn â sut y mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

# 3. Ymateb i'r Casgliadau

## Casgliad 1

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am yr adolygiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd o'r fframwaith Gofal Iechyd Parhaus a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y canfyddiadau ar ôl ei gwblhau ynghyd â chamau gweithredu a nodwyd i sicrhau gwelliant.

Ymateb:

Mae'r gwaith o adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn y cam cynllunio ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gynnal drwy gydol 2026-27 yn unol â chyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, a fydd ar waith o fis Ebrill 2026 ymlaen. Bydd yr adolygiad o'r Fframwaith yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus, gan roi cyfleoedd i glywed adborth ar y canllawiau cyfredol ac i wahodd awgrymiadau ar sut y gellid eu diwygio. Wedi hyn, y nod yw cyhoeddi'r Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn ystod 2027.

## Casgliad 2

Rydym yn rhannu siomedigaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nad yw Llywodraeth Cymru wedi dangos newid sylweddol eto mewn dyraniadau gwariant iechyd tuag at atal, er iddi nodi bod hyn yn flaenoriaeth.

Ymateb:

Wrth ymateb i argymhellion 8 a 10 yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymgymryd â chamau gweithredu i ddatblygu metrigau perfformiad pellach a nodi arferion gorau a'u rhannu a fydd yn ategu arferion ataliol. Trwy hyn, disgwyliwn ddatblygu sylfaen dystiolaeth gryfach yn ogystal â sylfaen y gellir datblygu cynlluniau gwaith rhanbarthol a chenedlaethol oddi arni a all lywio dyraniadau gwariant a gwaith cynllunio yn y dyfodol.

## Casgliad 3

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ei gwaith i gynyddu'r ddarpariaeth gofal canolraddol gyda mewnbwn therapiwtig a nyrsio a'r amserlenni ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth.

Ymateb:

Fel y nodwyd wrth ymateb i argymhelliad 10 uchod, gall canlyniadau adolygu arferion gofal canolraddol lywio gwaith cynllunio ar lefel ranbarthol a

chenedlaethol er mwyn ymateb i dwf y sector. Bydd y pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r adolygiad hwn a'r camau gweithredu dilynol.

## Casgliad 4

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru rannu rhagor o wybodaeth â ni am ei gwaith ar ddatgyflyru, yn ogystal â mentrau eraill i ddatblygu mwy o ofal canolraddol gyda mewnbwn therapiwtig a nyrsio, gan gynnwys amserlenni. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynhwysol i bobl â dementia.

Ymateb:

Yn unol â'r cynllun gweithredu presennol ynghylch dementia, mae Llwybr Safonau Dementia Cymru Gyfan wedi'i gyd-gynhyrchu sy'n hyrwyddo dull gofal integredig ar gyfer systemau cyfan. Dyma ddull gweithredu sy'n cynnwys safonau sy'n annog ymyriadau iechyd corfforol i wella cryfder, cydbwysedd a symudedd. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar sut y gall Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd helpu pobl â dementia. Byddwn yn edrych ar ffyrdd pellach o ran sut y gallwn ymgorffori hyn wrth ddatblygu olynydd i'r cynllun gweithredu ar gyfer dementia. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn i lywio ein dull gweithredu.

Mae pwyslais ar atal datgyflyru yn sgil arosiadau yn yr ysbyty wedi'i arwain gan dimau'r rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, yn rhan o'r Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai. Yn 2024, cynhaliwyd archwiliad o gleifion â hyd arosiadau hir yn ysbytai Cymru a thynnwyd sylw at raddfa datgyflyru ymysg cleifion a'r effaith arnynt. Ceir gweithgor cenedlaethol sy'n rhannu arferion da, ac yn ystod 2025, gwnaeth y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd, Safonau a Diogelwch hyrwyddo'r gwaith hwn ymhellach drwy sefydlu partneriaeth gofal diogel. Mae 27 o dimau o bob cwr o Gymru yn cynnal prosiectau sy'n gysylltiedig ag atal datgyflyru.

Mae'r rhaglen Chwe Nod a thrawsnewid gwerth, ar y cyd â'r Ganolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd (CEDAR) wedi bod yn datblygu adnodd atal datgyflyru yn sgil arosiadau yn yr ysbyty drwy broses sy'n canolbwyntio ar ymchwil. Bydd yr adnodd hwn yn cael ei lansio ym mis Tachwedd 2025 a'i roi ar waith ledled Cymru. Mae ymchwil bellach wedi'i chynllunio, i geisio sicrhau bod yr adnodd ar gael yn y gymuned ac ar gael yn uniongyrchol ar gyfer cleifion a gofalwyr. Bydd pecyn cymorth hefyd yn cael ei ddatblygu a fydd yn helpu staff, drwy roi'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt i atal datgyflyru ym mhob un o'r 11 o feysydd a nodir yn yr adnodd.

At hynny, bydd bwrdd atal datgyflyru cenedlaethol yn cael ei sefydlu, a fydd yn cynnig cymorth gweithredol clinigol i geisio parhau i ysgogi'r agenda o ran atal datgyflyru.

## Casgliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth am grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru ar ddigartrefedd â ni, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ganfyddiadau'r grŵp ac unrhyw gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ymateb i'r canfyddiadau hynny.

Ymateb:

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu gan y Grŵp Cynhwysiant Iechyd Strategol Cenedlaethol i lywio polisi a chynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu canllawiau statudol i osgoi rhyddhau pobl sy'n ddigartref, neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref, i'r stryd. Bydd y canllawiau yn cyd-fynd ag egwyddorion D2RA sef bod nodi statws tai cleifion wrth eu derbyn i'r ysbyty yn rhan annatod o'r broses rhyddhau cleifion o'r ysbyty, gan ysgogi staff byrddau iechyd i gydgysylltu ag awdurdodau tai lleol a gwasanaethau cymorth yn gynt i atal cleifion rhag cael eu rhyddhau i ddigartrefedd. Mae'r sgwrs 'Beth sy'n bwysig imi' yn rhan annatod o'r broses D2RA a bydd yn cael ei defnyddio fel sylfaen i staff ddeall statws tai cleifion wrth eu derbyn i'r ysbyty ac yn eu helpu i lywio trefniadau o ran eu rhyddhau.

Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys arweinwyr atal digartrefedd o awdurdodau lleol ac arweinwyr cyswllt rhyddhau o'r ysbyty / staff o fyrddau iechyd ledled Cymru.

Bydd y canllawiau terfynol yn cael eu rhannu â'r pwyllgor.

## Casgliad 6

Cytunwn ag argymhelliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei adroddiad yn 2022 ar ryddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar lif cleifion drwy ysbytai, sef bod rhaid cyflwyno diwygiadau sylweddol i gyflogau ac amodau gwaith staff gofal cymdeithasol ar fyrder.

Ymateb:

Mae gwelliannau i gyflogau, telerau ac amodau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'n Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol. Rydym yn parhau i weithio ar nifer o fentrau i hyrwyddo recriwtio a chadw gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys datblygu Fframwaith Tâl a Dilyniant ar gyfer y sector Gofal Cymdeithasol, sefydlu Partneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol a fydd yn datblygu modelau o arferion

gorau ar gyfer polisïau adnoddau dynol i geisio sicrhau cysondeb ar draws y sector gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar gyflwyno Cytundebau Cyflog Teg ar gyfer gofal cymdeithasol a hynny drwy ddatblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, drwy reoliadau.

## Casgliad 7

Mae angen cynllun strategol ar Lywodraeth Cymru i wella a chynyddu darpariaeth gofal seibiant ledled Cymru. Dylai hyn gynnwys ehangu'r Cynllun Seibiant Byr llwyddiannus, ynghyd â gwella mynediad at gymorth statudol i ofalwyr di-dâl.

Ymateb:

Mae Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl wrthi'n cael ei llunio a bydd yn cael ei chyhoeddi yn y gwanwyn yn 2026. Mae thema gyson sy'n deillio o'n hymwneud â gofalwyr di-dâl a'u cynrychiolwyr yn ymwneud â'r diffyg darpariaeth ddigonol ac addas o ofal seibiant, yn arbennig gofal seibiant dros nos. Bydd trefniadau seibiant gwell ledled Cymru yn un o amcanion strategol y strategaeth newydd a byddwn yn ceisio trafodaethau ag awdurdodau lleol, cyn eu cyhoeddi, ynglŷn â sut y gallent geisio gwella eu darpariaeth bresennol.

Rydym wrthi'n ystyried dyfodol ein cynllun Seibiannau Byr ac yn ymwybodol o rai o'r canfyddiadau cadarnhaol iawn sy'n dod i'r amlwg o'r adroddiad gwerthuso annibynnol sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ac a fydd ar gael erbyn diwedd y flwyddyn.